
AMGUEDDFA CYMRU

# Llwybrau Llafar
## *yn Amgueddfa Lleng Rhufeinig*

## MYNEDIAD A SYLFAEN

Cyn mynd i Gaerllion /
Before going to Caerleon.





- *Edrychwch ar y llun.*
- *Atebwch y cwestiynau.*
- *Edrychwch ar y geirfa.*
- *Atebwch y cwestiynau eto.*

### Llun o'r awyr

- Beth yw siâp y llun ar y dde?
- Beth yw siâp y llun ar y chwith?
- P'un yw'r hena yn eich barn chi?
- Pa lun sy'n perthyn i'r Rhufeiniaid?
- Pam rych chi'n meddwl hynny?

**Geirfa:**
**awyr = sky**
**llun = picture**
**crwn = round**
**petryal/sgwâr = square/four-sided**
**y dde = the right**
**y chwith = the left**
**henaf = oldest**

amgueddfa.cymru/rufeinig/addysg



# Map o Gaerllion

Edrychwch ar y map o Gaerllion heddiw ac atebwch y cwestiynau:

- Ydi'r amgueddfa yng nghanol y dre?
- Ydi afon Wysg yn llifo (flowing)drwy'r dre?
- Sawl prif stryd sy yng Nghaerllion?
- Ydi hi'n dre fawr?
- Oes milwyr yn y barics heddiw?
- Beth arall sydd ar y map?

**Geirfa:**

baddon/baddondai = bath/s
amffitheatr = amphitheatre
afon Wysg = river Usk
yng nghanol = in the middle
barics = barracks
milwyr = soldiers
ar gyrion = the edge of
drwy = through
amgueddfa = museum
caer/y gaer = fort/the fort










Hawlfraint y Goron (2021), Cadw - Darlun gan John Banbury




1 Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
2 Baddonau'r Gaer
3 Amffitheatr
4 Barics Maes Prysg
5 Wal y Gaer

©

# Ar ôl bod yng Nghaerllion:





## MYNEDIAD

- Beth weloch chi yn yr amgueddfa?
- Beth am wneud rhestr gyda phartner?
- Gwrandewch ar restr parau eraill. Oedd milwyr yn yr amffitheatr?
- Fuoch chi yn ymyl y barics?
- Beth sy yno heddiw?
- Ydych chin'gally nofio yn y baddondai?

**Geirfa:**

safle = location
awyr agored = open air
dan do = inside
rhufeinig = roman

## SYLFAEN



- Fuoch chi yn yr amgueddfa?
- Beth weloch chi yno?
- P'un ydi eich hoff safle Rhufeinig yng Nghaerllion. Pam?
- Ydi'r amffitheatr yn yr awyr agored?
- Ydi'r baddondai dan do?
- Pam roedd y Rhufeiniaid wedi adeiladu caer yng Nghaerllion yn eich barn chi?

# MYNEDIAD A SYLFAEN



## Ryseitiau / Recipes

## Beth roedd y Rhyfeiniaid yn ei fwyta?

Edrychwch ar y ddwy restr o ferfenwau (verb nouns) a berfau (verbs) am y ryseitiau.


| | | |
|---|---|---|
| **taenu** | **taenwch** | ***to spread/spread*** |
| **gorchuddio** | **gorchuddiwch** | ***to cover/cover*** |
| **ychwanegu** | **ychwanegwch** | ***to add/add*** |
| **pobi** | **pobwch** | ***to cook/cook*** |
| **cymysgu** | **cymysgwch** | ***to mix/mix*** |
| **tynnu** | **tynnwch** | ***to take/pull*** |
| **gadael** | **gadewch** | ***to leave/leave*** |

**Cyn darllen y rysait beth am wneud brawddegau mewn parau? Defnyddiwch y berfenwau yn gyntaf.**

- ***Dw i'n taenu menyn ar y bara***
- ***Dw i'n gorchuddio fy mhen yn yr haul poeth***
- ***Dydw i ddim yn ychwanegu siwgr at fy nghoffi***

**Wedyn trowch nhw yn ferfau neu yn orchmynion (commands)**

- ***Taenwch fenyn ay bara (sylwch ar y treiglad medal!)***
- ***Gorchuddiwch eich pen yn yr haul***



# MYNEDIAD A SYLFAEN

## Ryseitiau: Beth roedd y Rhyfeiniaid yn ei fwyta?

Darllenwch y rysait 'ma mewn parau.

### *RHOST CYMYSG:*

***Cynhwysion***

***500g o gnau cymysg***
***2 lwy de o olew olewydd***
***4 llwy de o fêl***
***Un llwy de yr un o sinamon, cwmin grwnd, hadau pabi, halen a phupur.***

***DULL:***

- **Taenwch y cnau ar bapur pobi**
- **Gorchuddiwch ag un llwy de o olew a dwy lwy de o fêl**
- **Ychwanegwch y sbeis a chymysgu popeth a'u rhoi yn ôl yn y ffwrn**
- **Cymysgwch y cnau -peidiwch â llosgi'r cnau!**
- **Tynnwch y cnau o'r ffwrn**
- **Gadewch i'r cnau oeri – mae'r mêl yn boeth iawn!**

***> Beth am ddefnyddio cnau a sbeisys eraill? Mae paprica a tsili yn flasus iawn.***

# MYNEDIAD A SYLFAEN



**Ydych chi wedi dyfalu beth yw ystyr olew olewydd, mêl, cnau, pabi , a chynhwysion?**

- Gofynnwch i rywun arall os dydych chi ddim yn gwybod.
- Beth am siarad am y rysait?
- Ydych chi'n hoffi'r cynhwysion?
- Ydych ch eisiau trio coginio'r rysait?
- Ydych chi'n hoffi trio ryseitiau newydd?
- Beth ydy'ch hoff fwyd chi?

**Dull:**
- Torrwch y cnau yn fras
- Cymysgwch yr holl gynhwysion

## Darllenwch un rysait arall mewn parau o gyfnod y Rhufeiniaid nawr.





***Enllyn Olifau:***

***<u>Cynhwysion</u>***

***120g o olifau du***

***120g o olifau gwyrdd***

***4 llwy de ginger***

***1 llwy bach gwin coch***

***4 llwy de o olew olewydd***

***Un llwy de o wreiddyn ffenigl wedi'l dorri'n fân***

***Un llwy de o goriander ffrres wedi'l dorri***

***Dwy lwy de o fintys sych***





